# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **10 Ebrill 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Roland Evans** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679 450** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Gwynedd 2018-2023**<br>**Adnoddau i'r Cynllun 'Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion'** |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1 Ymrwymo £50,000 o adnoddau'r Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19 er mwyn gwireddu'r Cynllun 'Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion i Wynedd'.

1.2 Adolygu cynnydd y weithgaredd ac ymrwymiadau pellach i gefnogi gweddill oes y Cynllun cyn diwedd 2018.

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1 Yn dilyn mabwysiadu 'Cynllun Gwynedd 2018-2023' gan y Cyngor Llawn ar yr 8fed o Fawrth 2018, mae cael y deilliannau gorau ar gyfer cymunedau a busnesau o ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal yng Ngwynedd wedi ei gynnwys o fewn y flaenoriaeth 'Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion'.

2.2 Er mwyn ymateb i drefnwyr digwyddiadau sydd wrthi'n cynllunio ar gyfer 2018 a thu hwnt, mae angen derbyn penderfyniad ar yr adnoddau fydd ar gael i gefnogi'r maes.

**3. CYFLWYNIAD**

3.1 Mae cefnogi digwyddiadau mawr a nodweddiadol wedi bod yn flaenoriaeth i Gyngor Gwynedd ers rhai blynyddoedd bellach.

3.2 Trwy gyflogi Rheolwr Digwyddiadau yn yr Adran Economi a Chymuned mae'r Cyngor yn sicrhau un pwynt cyswllt ar gyfer trefnwyr digwyddiadau o fewn y Sir ac yn hyrwyddo'r ddelwedd o 'un Cyngor' wrth ddelio gyda digwyddiadau.

3.3 Mae'r Rheolwr Digwyddiadau'n darparu cyngor a chefnogaeth i holl drefnwyr digwyddiadau Gwynedd a hefyd yn gyfrifol am unrhyw ddigwyddiadau a drefnir gan Gyngor Gwynedd. Mae llawer o wybodaeth i drefnwyr wedi ei roi ar wefan y Cyngor yn ddiweddar a'r Rheolwr sydd hefyd yn cynnal y berthynas strategol rhwng Cyngor Gwynedd ac Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru. Disgwylir elfen o gefnogaeth ariannol gan Awdurdod Lleol perthnasol i gyd-ariannu digwyddiadau mawr a gyllidir gan y Llywodraeth.

3.4 Nid oes cyllideb i gefnogi gwaith y Rheolwr nac i gefnogi trefnwyr digwyddiadau y tu hwnt i'r gyllideb sydd wedi ei ddyrannu i'r maes trwy'r Cynlluniau Strategol yn y gorffennol.

3.5 Trwy gefnogi trefnwyr digwyddiadau a thrwy ddylanwadu ar ddigwyddiadau, mae hyn yn arwain at gyfleoedd i hyrwyddo'r sir, cyfleon i bobl ifanc Gwynedd, cynnydd yn y nifer o ymwelwyr a'r Sir, a chynnydd yn nifer y cyfleoedd i gwmnïau lleol weithio neu gynnig gwasanaethau i ddigwyddiadau. Mae hefyd yn sicrhau naws am le a hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy'r digwyddiadau a gefnogir.

3.6 Wrth i'r Cynllun Strategol presennol ddirwyn i ben, mae allbynnau'r digwyddiadau sydd wedi eu cefnogi dros y 5 mlynedd diwethaf yn cynnwys:

- 46 o ddigwyddiadau wedi eu cefnogi ar draws Gwynedd
- Dros 184,000 yn mynychu digwyddiadau
- £163,000 o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i gefnogi digwyddiadau mawrion yn sgil cyfraniad gan Gyngor Gwynedd
- £3.13m o wariant yn uniongyrchol yng Ngwynedd gan drefnwyr digwyddiadau
- 1,237 o fusnesau yn y sir wedi elwa o ddigwyddiadau gan ddiogelu 940 o swyddi
- £24.24m o fudd economaidd i Wynedd wedi ei gynhyrchu gan y digwyddiadau
- Dadansoddiad 'gwerth yn erbyn buddsoddiad' yn awgrymu bod pob £1 a fuddsoddir gan y Cyngor mewn digwyddiadau yn dod a £160 yn ôl i'r economi leol.
- Cyhoeddusrwydd a marchnata cenedlaethol a rhyngwladol sylweddol yn deillio o ddigwyddiadau
- Newid yng nghanfyddiadau ymwelwyr a thrigolion lleol (pobl ifanc yn arbennig) o'r sir fel lleoliad bywiog, egnïol a chyfoes
- Cyfleon i'r Cyngor weithio gyda threfnwyr digwyddiadau, y sector fusnes a chymunedau i sicrhau'r buddion gorau i'r ardal a lle amlwg i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1 Ar gyfer cyfnod nesaf Cynllun Gwynedd, bwriedir dysgu o brofiadau cynlluniau'r gorffennol a newid y modd y mae'r Cyngor yn cyd-weithio gyda threfnwyr digwyddiadau.

4.2 Nid yw'n fwriad yn y dyfodol rhoi 'grant' i drefnwyr digwyddiadau, ond yn hytrach gydweithio gyda hwy trwy fuddsoddi yn eu digwyddiad er mwyn cael y deilliannau gorau i'r Sir. Trwy fuddsoddi, mae'r Adran yn credu bod modd:

i. Darparu cymorth ariannol i ddenu a chadw digwyddiadau mawrion yn y sir a'u hymrwymo i weithio gyda chyflenwyr lleol a hyrwyddo Gwynedd;
ii. Datblygu cadwyn gyflenwi lleol i ddarparu nwyddau a gwasanaethau i ddigwyddiadau yng Ngwynedd a thu hwnt;
iii. Hyrwyddo'r sir i ymwelwyr a buddsoddwyr drwy law digwyddiadau;

4.3 Trwy weithredu'r uchod, bwriedir creu busnes newydd i fentrau cynhenid Gwynedd a denu mwy o ymwelwyr a buddsoddwyr i Wynedd.

4.4 Mae dadansoddiad cychwynnol o'r digwyddiadau sydd eisoes wedi cysylltu efo'r Rheolwr Digwyddiadau'n amcanu y byddai buddsoddi ynddynt yn medru arwain at y deilliannau canlynol yn ystod 2018:

i. £4.4m o fuddsoddiad gan drefnwyr digwyddiadau
ii. Bron i £1m o fuddsoddiad yng Ngwynedd
iii. Dros £4.7m o fudd economaidd i Wynedd (ar sail tystiolaeth o'r un digwyddiadau a gynhaliwyd yn hanesyddol)
iv. Dros 118,000 o bobl yn mynychu a chymryd rhan yn y digwyddiadau

4.5 Bydd hefyd yn caniatáu'r Cyngor i:

i. Weithio law yn llaw a'r digwyddiadau mawr gan adnabod cyfleoedd er mwyn sicrhau'r budd mwyaf i fusnesau a thrigolion Gwynedd;
ii. Gweithio'n agos gydag Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru a chynghorau eraill ar draws y Gogledd ar brosiectau er mwyn denu buddsoddiad ychwanegol gan y Llywodraeth;
iii. Gweithio gyda threfnwyr digwyddiadau er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i bobl ifanc Gwynedd elwa o'r digwyddiadau a lle ganolog i'r Gymraeg a diwylliant Gwynedd yn y digwyddiadau;
iv. Creu busnes newydd i fentrau cynhenid Gwynedd a denu mwy o ymwelwyr gwerth uchel a buddsoddwyr i Wynedd.

4.6 Os na fydd cyllideb ar gael ar gyfer buddsoddi mewn digwyddiadau, ni fydd modd i'r Cyngor gydweithio mor effeithlon gyda threfnwyr na dylanwadu cystal er mwyn cynyddu'r buddion i'r Sir.

4.7 Gallai hyn arwain at y risg o golli digwyddiadau o Wynedd i ardaloedd eraill o Gymru a thu hwnt gan felly golli'r buddion economaidd i fusnesau a chymunedau Gwynedd a cholli'r cyfle i godi proffil a delwedd y sir ymysg pobl Gwynedd ac ymwelwyr.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Yn dilyn penderfyniad y Cabinet, bydd cynllun prosiect yn cael ei ffurfioli a chydweithio'n parhau gyda threfnwyr digwyddiadau, adrannau perthnasol y Cyngor a phartneriaid i roi'r cynllun ar waith er mwyn cynyddu'r budd o ddigwyddiadau mawrion i bobl Gwynedd.

5.2 Bydd adroddiad cynnydd a chais am adnoddau pellach ar gyfer gweddill oes y cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet cyn diwedd 2018.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

**Barn Y Prif Swyddog Cyllid:**

"Os yw'r Cabinet yn dymuno cefnogi'r cais, bydd rhaid i'r penderfyniad fod yn glir ynglŷn â pha gronfa fydd ffynhonnell yr arian. Fel mae'r adroddiad yn nodi, mae'r cynllun yma wedi cael ei ariannu yn y gorffennol allan o'r Gronfa Trawsffurfio. Gallaf gadarnhau fod yr arian sy'n weddill yn y gronfa yma yn ddigonol i ariannu'r cais un-tro hwn am £50,000. Wrth gwrs, megis dechrau yr ydym ar Gynllun newydd y Cyngor, a bydd sawl angen / defnydd haeddiannol yn cystadlu am adnodd prin o unrhyw gronfeydd a sefydlir neu a drosglwyddir ar gyfer y pwrpas yma. Mater i aelodau'r Cabinet fydd blaenoriaethau'r ceisiadau perthnasol."

**Barn y Swyddog Monitro:**

**“**Mae’n hanfodol fod unrhyw benderfyniad gan y Cabinet yn adnabod y ffynnhonell benodol ar gyfer ariannu y prosiect. Rhoddaf gyngor pellach os cyfyd angen yn y cyfarfod.”

**Barn Aelod Lleol**: Dim yn fater lleol